


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

19 Tachwedd 2018

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 26 TACHWEDD 2018** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2018 yn gywir.
- 6. MATERION YN CODI**
- 7. COFNODION Y CYFARFOD CYNGOR ARBENNIG**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2018 yn gywir.
- 8. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.
- 9. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

www.cyngortrefrhuthun.gov.uk / www.ruthintowncouncil.gov.uk

10. CYFETHOL CYNGHORYDD TREF

Gofyn i aelodau ddewis aelod newydd o blith y tri unigolyn sydd wedi mynegi diddordeb yn y sedd wag.

11. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – RASUS MULOD 2019 CLWB ROTARI RHUTHUN

Ystyried cais am gymorth ariannol o £750.00 ar gyfer Diwrnod Hwyl Rasmus Mulod Clwb Rotari Rhuthun i'w gynnal ar 15 Mehefin 2019.

12. ADFER CLYCHAU EGLWYS SANT PEDR

Ystyried llythyr gan Mrs J. Trigger, Cadeirydd a Chydlynnydd Project Adfer y Clychau ynghylch cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at y prosiect.

13. DYFODOL RHUTHUN 2

Ystyried a mabwysiadu'r diweddariad i adroddiad Rhuthun: Tref Farchnad y dyfodol yn dilyn ymgynghoriadau Wythnos Dyfodol Rhuthun.

14. NEUADD Y DREF RHUTHUN

Ystyried sefydlu gweithgor i edrych ar ddefnydd cyfleusterau Neuadd y Dref.

15. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2018.

16. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

100063	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	Cymorth ariannol i swyddfa CAB Rhuthun		£2,000.00
100064	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad tuag at waith y Lleng Brydeinig Frenhinol		£50.00
100065	Cyngor Sir Ddinbych	Tynnu'r basgedi crog o ganol tref Rhuthun	*	£405.00
100066	Fineline	250 copi o Galendr Elusennol y Maer	*	£663.19
100067	I T Williams Co. Ltd.	Cludo'r planwyr basgedi crog o Ruthun i Gorwen	*	£580.08
100068	Fineline	Pecyn o bapur gwyn sidan 130g	*	£29.29
100069	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Tachwedd 2018		£176.13
100070	Cyng. K. Allsopp-Robson	Costau teithio i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng		£42.30
100071	Boyns Information Systems Ltd	Canfod a datrys y broblem gyda'r cyfrifiadur a rhaglen amddiffyn gwrth-firws Panda	*	£90.00
100072	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100073	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd mis Tachwedd	*	£270.00
100074	Sandra Williams	Lluniaeth ysgafn Sul y Cofio		£19.02

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £339.59)

RHAN DAU – EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem(au) a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel a ddiffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

17. YR HEN LYS

Derbyn cynllun busnes diwygiedig, adroddiad gan Hodkinson Mallinson Ltd, Syrfeiwyr Adeiladau Siartredig, ac unrhyw ddiweddariadau eraill ynghylch yr Hen Lys.

18. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Derbyn cofnodion yr Is-bwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018 ac ystyried argymhellion yr Is-bwyllgor.

19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 17 Rhagfyr 2018, am 7.00pm.